



Buddsoddiad o £2.3m ar gyfer cymorth mabwysiadu yng Nghymru

Heddiw (Mehefin 6), cyhoeddodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru (GMC) ac Adoption UK Cymru (AUK) fuddsoddiad o £2.3 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymorth mabwysiadu yng Nghymru.

Mewn digwyddiad a gynhaliwyd yn y Senedd a fynychwyd gan bobl allweddol o'r sector, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan, yr ariannu a lansiodd yn swyddogol wasanaeth newydd 'Cofrestr Fabwysiadu Cymru'.

Mae'r buddsoddiad o £2.3m i'w wario trwy bum rhanbarth GMC ledled Cymru i atgyfnerthu gwasanaethau cymorth mabwysiadu, cynyddu lefelau staff a gwella ffyrdd o weithio mewn meysydd allweddol o gymorth i deuluoedd mabwysiadol.

Mae'r gofrestr newydd yn rhan allweddol o'r broses baru ar gyfer mabwysiadu nifer o blant a bydd yn cynorthwyo gyda dod o hyd i deulu'n fuan. Bydd y gofrestr, sydd bellach ar gyfer **pob plentyn** sydd â chynllun mabwysiadu yng Nghymru, nid dim ond y plant sydd wedi bod yn aros hiraf, yn rhoi mwy o ddweud i fabwysiadwyr yn y broses o ddod o hyd i deulu.

Meddai Suzanne Griffiths, Cyfarwyddwraig Gweithrediadau y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol: "Mae'r gofrestr newydd yn cefnogi ein hymrwymiad i sicrhau'r broses baru a chanfod teulu gorau posibl ar gyfer plant a mabwysiadwyr. Mae'n wasanaeth dwyieithog sy'n ei wneud yn fwy cynhwysol ac mae hefyd yn cynnig mynediad â chymorth i fabwysiadwyr weld proffiliau plant a gwneud penderfyniadau, gyda chymorth eu Gweithiwr Cymdeithasol."

Dywedodd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan: "Fel Llywodraeth rydym yn buddsoddi arian i atgyfnerthu gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru gan gydweithio gyda sefydliadau allweddol i ddefnyddio'r ariannu yma i ddarparu'r cymorth cywir i rai sy'n cael eu mabwysiadu a mabwysiadwyr. Yn ogystal â sicrhau y gellir dod o hyd i deuluoedd mabwysiadol yn gyflymach, bydd yr ariannu yma'n galluogi'r rhanbarthau mabwysiadu i wella ymhellach y ddarpariaeth o wasanaethau cymorth mabwysiadu yn eu hardal."

Ychwanegodd Suzanne Griffiths: "Mae'r buddsoddiad hwn yn hwb mawr i'n gwaith i wella'r cymorth sydd ar gael i deuluoedd mabwysiadol ledled Cymru. Gwella gwasanaethau, ac yn enwedig wasanaethau cymorth, oedd un o'r heriau pennaf oedd yn wynebu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol pan gafodd ei sefydlu."

"Rydym eisoes wedi gwneud llawer o welliannau trwy ein gwasanaethau llywodraeth leol rhanbarthol, ond bydd yr ariannu yma'n ein galluogi i sicrhau bod gwasanaethau gwell ar gael yn gyson i deuluoedd ledled Cymru yn ogystal â darparu, mewn partneriaeth â'r drydydd sector, wasanaethau newydd cyffrous fel TESSA a gwasanaeth newydd i blant a phobl ifanc".

Yn ogystal, defnyddiwyd rhan o'r buddsoddiad fel arian cyfatebol ar gyfer £250,000 ychwanegol oddi wrth Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, a ddyfarnwyd i AUK i

drosglwyddo eu rhaglen Gwasanaethau Cymorth Addysg Therapiwtig mewn Mabwysiadu (TESSA).

Dyweddodd Ann Bell, Rheolwraig Datblygu, AUK Cymru: “Mae’n bleser gan Adoption UK weithio gyda’r Loteri Genedlaethol i ehangu’r rhaglen TESSA ar draws y Deyrnas Unedig. Mae TESSA yn sicrhau y caiff teulu mabwysiadol wasanaeth seicolegydd clinigol a mabwysiadwr profiadol, gan roi strategaethau ymdopi iddyn nhw yn ogystal â dealltwriaeth o sut y mae rhieni eraill wedi gweithio trwy heriau er mwyn helpu eu teulu i ffynnu.

“Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol ar gyfer mabwysiadu’n llwyddiannus ac mae TESSA wedi bod yn hynod o effeithiol yng Ngogledd Iwerddon, gyda theuluoedd mabwysiadol yn sôn am y gwahaniaeth aruthrol y mae wedi ei olygu iddyn nhw. Bydd yr ariannu ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru yn cynyddu maint a chyrhaeddiad TESSA yng Nghymru yn sylweddol, gan sicrhau ei fod ar gael i fwy o lawer o deuluoedd mabwysiadol newydd.”

Os oes gennych ddi-ddordeb mabwysiadu ac os hoffech fwy o wybodaeth, ymwelwch â mabwysiaducgymru.org.uk

I bobl sy’n mabwysiadu ar hyn o bryd, cewch ddysgu mwy am y cymorth sydd ar gael i chi a’ch plentyn ar adoptionuk.org

-DIWEDD-

AM LUNIAU:

<https://www.dropbox.com/sh/u5gfs0ncnpw3b0n/AABAKjgkIEYtd4UiD0rYcdPa?dl=0>

I GAEL RHAGOR O WYBODAETH, CYSYLLTWCH Â:

Stacey Oliver, Cowshed Communication

02920 789 321 / stacey@wearecowshed.co.uk / nas@wearecowshed.co.uk

CYFLEOEDD CYFWELD:

- Phil Hodgson MBE, Cadeirydd Grŵp Cynghori GMC, am y gofrestr newydd a’r cynlluniau ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru
- Y Cynghorydd Geraint Hopkins, Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr GMC, am y gofrestr newydd a’r cynlluniau ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru – Cymraeg
- Ann Bell, Adoption UK Cymru, am y buddsoddiad gan y Gronfa Loteri Fawr
- Ans Aspden, oedolyn mabwysiedig – siaradwr Cymraeg – am y gwasanaethau cymorth a gafodd drwy AUK Cymru
- Julie Morgan AC (i’w gadarnhau – yn dibynnu ar amseru), am ymrwymadau i ganfod teuluoedd yng Nghymru

Gair i’r Golygydd

Ynglŷn â Chofrestr Fabwysiadu Cymru

- Mae Cofrestr Fabwysiadu Cymru (CFC) yn wasanaeth canfod teulu dwyieithog ar-lein. Gan ddefnyddio Link Maker, system ddiogel sy’n gyflym a hawdd ei defnyddio, nod y gofrestr yw dod o hyd i gyfatebiadau mwy addas a sefydlog i deuluoedd a lleihau’r amser aros i blant sydd â chynllun mabwysiadu ledled Cymru.
- Mae hefyd wedi’i dylunio i roi mwy o ddweud i fabwysiadwyr wrth geisio canfod teulu.
- Diben y gofrestr, sydd wedi’i hariannu’n llawn gan Lywodraeth Cymru ac sy’n cael ei darparu gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru, yw lleihau’r oedi wrth ddod o hyd i deuluoedd mabwysiadol i blant sydd ar y rhestr aros.

Ynglŷn â Gwasanaethau Cymorth Addysg Therapiwtig mewn Mabwysiadu (TESSA)

- Gwasanaeth cymorth newydd ac arloesol i deuluoedd mabwysiadol newydd, sydd ar gael ledled Cymru.
- Mae TESSA yn rhoi mynediad i deuluoedd mabwysiadol i seicolegydd clinigol a mabwysiadwr profiadol ar gam cynnar ar eu taith. Mae hyn yn galluogi’r teulu i edrych ar effeithiau trawma

cynnar, gan roi strategaethau ymdopi iddo ynghyd â chip o sut mae rhieni eraill wedi gweithio drwy heriau a symud ymlaen i helpu eu teuluoedd i ffynnu.

- Bydd TESSA yn ategu yn hytrach na disodli darpariaeth statudol; bydd modd cael gafael arno drwy ranbarthau mabwysiadu'r GMC a bydd yn gysylltiedig â'r gwaith o gynllunio gwasanaethau cymorth.

Ynglŷn â'r Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc (GPPH)

- Mae'r GPPH yn disodli Talk Adoption, ar ôl i Adoption UK Cymru gymryd rheolaeth ohono yn gynharach eleni.
- Bydd y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc yn parhau i gynnal grwpiau lleol bach ledled Caerfyrddin, Abertawe a Chaerdydd i ddechrau er mwyn cynnig gofod diogel lle gall pobl gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau grŵp, fel sgiliau syrcau, coginio a gemau theatr. Mae'r gweithgareddau hyn wedi'u dylunio i adeiladu sgiliau bywyd, hyder a hunan-barch, ond y nod pennaf yw CAEL HWYL! Maent hefyd yn annog pobl i adeiladu cyfeillgarwch ac yn eu galluogi i gael cefnogaeth barhaus.
- Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei enwi'n swyddogol gan y plant a'r bobl ifanc dros y misoedd nesaf.
- Mae staff ychwanegol yn cael eu recriwtio ledled Cymru i sicrhau bod y gwasanaeth, dros amser, ar gael i fwy o blant a phobl ifanc, ac i wella cyngor a gwybodaeth.
- Mae cefnogi plant a phobl ifanc i gael lle i dyfu a datblygu mewn amgylchedd diogel a chefnogol yn hanfodol. Mewn tro mae hyn yn eu galluogi i deimlo'n hyderus a mynegi eu barn i rieni, athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill.
- Nod y GPPH yw eu helpu i ddeall sut maent yn teimlo a datblygu'r iaith i'w galluogi i fynegi eu hunain a deall eu hunain yn well.

Am y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru

Wedi ei lansio ym mis Tachwedd 2014, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yng Nghymru (GMC) yw gwasanaeth cydweithrediadol Cymru gyfan ar gyfer darparu gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru. Mae wedi dwyn ynghyd wasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol i strwythur tair haen sy'n cynnwys partneriaethau ar bob lefel gydag asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol Cymru, y gwasanaethau iechyd ac addysg yn ogystal â sefydliadau eraill.

Yn lleol, mae pob awdurdod lleol yn dal i ddarparu gwasanaethau ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal tra'n dynodi a gweithio gyda'r plant hynny y mae cynllun ar gyfer mabwysiadu'n briodol ar eu cyfer. Yn rhanbarthol, mae'r awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd mewn pum gwasanaeth cydweithrediadol rhanbarthol i ddarparu ystod o wasanaethau mabwysiadu. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn amrywio rhwng y gwasanaeth cydweithrediadol, ond mae pob un yn darparu'r swyddogaethau asiantaeth fabwysiadu ar gyfer plant, yn recriwtio ac asesu mabwysiadwyr, cynnig cwnsela i rieni biolegol a chynghor i oedolion mabwysiedig. Mae rhai yn darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu uniongyrchol, tra mewn ardaloedd eraill mae hyn yn dal i fod yn nwylo'r awdurdod lleol. Mae pob gwasanaeth cydweithrediadol rhanbarthol â chysylltiadau â'r asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol, iechyd ac addysg.

Yn genedlaethol, mae'r Gyfarwyddwraig Gweithrediadau a thîm canolog bychan, sy'n cael eu lletya gan Gyngor Dinas Caerdydd ar ran y 22 awdurdod lleol, yn darparu cyfarwyddyd, datblygiad a chydlynid cenedlaethol. Ers Medi 2015 mae'r tîm canolog wedi rheoli Cofrestr Fabwysiadu Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae'r asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol yng Nghymru'n cydweithio o dan yr enw *Strategic Voluntary Adoption Partnership*; mae'r bartneriaeth yn cynnwys Cymdeithas Plant Dewi Sant [yn cynnwys y Gymdeithas ar gyfer Maethu a Mabwysiadu yng Nghymru (AFA Cymru)], Adoption UK, After Adoption a Barnardo's Cymru.